



Huw Irranca-Davies AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

21 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy llythyr diweddar yn rhoi gwybod ichi am gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, a gynhaliwyd ar 9 Chwefror yn St Andrew's House, Caeredin, hoffwn roi crynodeb o'r trafodaethau. Cafodd hysbysiad ei gyhoeddi hefyd yn dilyn y cyfarfod: [Finance: Interministerial Standing Committee – February 2023 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/interministerial-standing-committee-february-2023)

Yn ymuno â mi oedd y Gwir Anrhydeddus John Glen AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, John Swinney ASA, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Adfer wedi Covid (Llywodraeth yr Alban) (Cadeirydd). Gwnaeth swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon fynychu hefyd yn rhithwyr, i arsylwi.

Canolbwyntiodd rhan gyntaf y cyfarfod ar gynlluniau economaidd a chyllidol y DU a thynnais sylw at yr heriau y mae proses amcangyfrifon atodol y DU yn eu creu i gyllideb Llywodraeth Cymru. Amlinellais hefyd flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Gwanwyn Llywodraeth y DU.

Gan adeiladu ar drafodaethau blaenorol ynghylch darparu mwy o sicrwydd o ran cyllid, a chynnig hyblygrwydd i lywodraethau datganoledig, ac addasiadau posibl i'r broses bresennol a fydd yn fy ngalluogi i gynllunio fy nghyllideb yn fwy effeithiol, gofynnais i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys barhau i ystyried y mater ac rwyf eisoes wedi ategu fy nghais mewn llythyr.

Yn ystod y trafodaethau ar bwysau cyllidebol, mynegais flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Gwanwyn y DU sydd i ddod. Gofynnais i Lywodraeth y DU ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus ac ymateb i'r pwysau o ran chwyddiant, tâl a chostau eraill.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Prif Weinidog y DU wedi nodi lleihau rhestrau aros y GIG fel un o'i flaenoriaethau, a gofynnais am ragor o eglurder o ran beth fydd yn cael ei wneud yng Nghyllideb y Gwanwyn i gyflawn hyn. Nodais hefyd y bydd y GIG yn dathlu 75 mlynedd o wasanaethu ym mis Gorffennaf.

Cynigiais nifer o awgrymiadau ymarferol a allai gefnogi pobl gyda'r argyfwng costau byw parhaus, gan gynnwys newidiadau i'r polisi didyniadau ar gyfer hawlwyr Credyd Cynhwysol. Mewn perthynas â phrisiau ynni, mynegais bryderon ynghylch lefel y cymorth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a phyllau nofio. Pwysleisiais hefyd, yn dilyn y gostyngiad mewn cymorth ar gyfer ynni cartrefi, bydd bron i hanner holl aelwydydd Cymru bellach yn wynebu tlodi tanwydd. Gofynnais i Lywodraeth y DU a fyddai modd gwneud mwy gyda threthi ffawdelw ar elw ynni, i sicrhau bod cynlluniau rhyddhad yn cyflawni'r dibenion y bwriadwyd iddynt eu cyflawni a bod unrhyw fylchau'n cael eu cau, er mwyn helpu i gynhyrchu cyllid ychwanegol y gellid ei ddefnyddio i gefnogi'r rhai hynny sy'n ei chael hi'n anodd talu costau ynni.

Yn olaf, tynnais sylw at yr heriau y mae amseru Cyllideb Gwanwyn Llywodraeth y DU yn eu creu i Gymru, gan y bydd yn cael ei chyhoeddi yr wythnos yn dilyn cam olaf cyflwyno ein Cyllideb i'r Senedd (er mwyn galluogi awdurdodau lleol i osod eu cyllidebau erbyn y dyddiad cau statudol).

Roedd ail ran y cyfarfod yn canolbwyntio ar gyllid yn lle cyllid yr UE, ac amlinellais yr effaith y mae penderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch y cyllid hwn wedi'i chael ar Gymru a'r diffyg ariannol o £1.1 biliwn, gan gynnig enghreifftiau i ddangos yr effaith ddifrifol y mae colli'r cyllid hwn yn ei chael yng Nghymru. Gwnes i sicrhau cytundeb gan Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i rannu gwybodaeth am gyfrifiadau sy'n sail i werth cyllid yn lle cronfeydd strwythurol yr UE ac i archwilio dulliau pellach o weithio gyda'n gilydd gan sicrhau mwy o alinio â blaenoriaethau'r llywodraethau datganoledig.

Yn olaf, rhoddais wybod i'r grŵp am yr adroddiad interim a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, gan nodi nifer o bwyntiau sy'n cefnogi ein hachos dros hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y cyfarfod nesaf, ym mis Mehefin, a byddaf i'n Gadeirydd.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government